Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru): Crynodeb o'r Bil (Cyfnod 2)

14 Mehefin 2022



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 1100 162**
E-bost: **Rosemary.Hill@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Diweddariadau mewn amser real** | **Diweddariadau wythnosol a misol**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# **Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru):** Crynodeb o'r Bil (Cyfnod 2)

14 Mehefin 2022

**Awdur:**

Rosemary Hill

Gosodwyd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) gerbron y Senedd ar 1 Tachwedd 2021. Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Mae'r Bil yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn creu corff newydd a noddir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i gelwir yn Gomisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Bydd y corff hwn yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-orfodol gan gynnwys addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, y chweched dosbarth ac addysg oedolion yn y gymuned.

Mae'r **Bil a'r Memorandwm Esboniadol** wedi eu cyhoeddi ar wefan y Senedd. Mae ein **Crynodeb o'r Bil**, a gyhoeddwyd pan gyflwynwyd y Bil, yn esbonio'r hyn mae'r Bil yn ei wneud ac yn rhoi gwybodaeth gefndirol.

www.senedd.cymru

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........................................ 1**

**2. Gwaith craffu Cyfnod 1 ........................................ 2**

**3. Gwelliannau Cyfnod 2 ........................................ 3**

Grŵp 1: Perthynas y Comisiwn â Llywodraeth Cymru ........................................ 5

Grŵp 2: Sefydlu'r Comisiwn, penodiadau a thelerau ei aelodau ........................................ 5

Grŵp 3: Undebau Llafur ........................................ 6

Grŵp 4: Ymchwil ac Arloesi ........................................ 6

Grŵp 5: Cyfle cyfartal ........................................ 6

Grŵp 6: Anghenion Dysgu Ychwanegol ........................................ 7

Grŵp 7: Llais y dysgwr, llesiant ac amddiffyniad ........................................ 7

Grŵp 8: Prentisiaethau, addysg alwedigaethol a dysgu oedolion yn y gymuned ........................................ 7

Grŵp 9: Addysg cyfrwng Cymraeg ........................................ 8

Grŵp 10: Gwelliannau drafftio, technegol a dehongli cyffredinol ........................................ 8

Grŵp 11: Ymreolaeth sefydliadol, rhyddid academaidd a rhyddid i lefaru ........................................ 9

Grŵp 12: Diogelu elusennau ........................................ 9

Grŵp 13: Gweithdrefn a phroses y Senedd ar gyfer gwneud rheoliadau ........................................ 9

Grŵp 14: Cofrestru ........................................ 10

Grŵp 15: Sicrhau ansawdd ....................................................................................10

Grŵp 16: Pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru, adroddiadau ar gynaliadwyedd ariannol, cyfarwyddiadau cymorth ariannol ................. 11

Grŵp 17: Cytundebau canlyniadau, rheolaethau cyllido a thryloywder................................................................................................ 11

Grŵp 18: Pwerau cyllido Gweinidogion Cymru...............................................12

Grŵp 19: Gwybodaeth.......................................................................................12

Grŵp 20: Diddymu corfforaethau addysg uwch...........................................13

Grŵp 21: Y Chweched Dosbarth.....................................................................13

**4. Y camau nesaf: Cyfnod 3 a thu hwnt .........................................14**

# 1. Cyflwyniad

## Bydd y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn dwyn ynghyd y gwaith o gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg ôl-16 ac ymchwil yng Nghymru o dan un corff, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

1. Cyflwynwyd y **Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)** gerbron y Senedd gan Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ar 1 Tachwedd 2021. Mae'r Bil ar hyn o bryd yng Nghyfnod 3 **proses ddeddfwriaethol y Senedd**.
2. Os caiff ei basio gan y Senedd, bydd y Bil yn darparu sylfaen statudol ar gyfer corff cyhoeddus newydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn').
3. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-orfodol gan gynnwys addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, chweched dosbarth ac addysg oedolion yn y gymuned. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn rheoleiddio ac yn darparu cyllid ar gyfer addysg uwch, tra bod Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny ar gyfer y sectorau addysg drydyddol eraill.
4. Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru **yr Athro Ellen Hazelkorn** i adolygu'r trefniadau goruchwylio addysg ôl-orfodol yng Nghymru. Cyhoeddodd yr adolygiad ei argymhellion mewn adroddiad terfynol, **Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru**. Wrth ymateb i'r adroddiad, nododd Llywodraeth Cymru ar y pryd ei dau '**brif argymhelliad**':
   - datblygu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol; a
   - sefydlu corff hyd braich newydd sy'n gyfrifol am oruchwylio, cyfeiriad strategol ac arweinyddiaeth y sector.
5. Mae'r Bil yn bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn. Mae'r **Crynodeb o'r Bil** a gyhoeddwyd gennym pan gyflwynwyd y Bil yn rhoi rhagor o wybodaeth am y Bil ei hun a'r hyn mae'n ei wneud. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar newidiadau i'r Bil yng Nghyfnod 2.

## 2. Gwaith craffu Cyfnod 1

Mae pedwar cyfnod ym mhroses ddeddfwriaethol y Senedd. Cwblhaodd y Bil Gyfnod 1 ar 15 Mawrth 2022, pan basiodd y Senedd gynnig i gytuno ar ei egwyddorion cyffredinol. Mae tri o bwyllgorau'r Senedd hefyd wedi cynnal gwaith craffu manwl ar ddarpariaethau'r Bil.

6. Cynhaliodd y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** waith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1. Mae **Pwyllgor Cyllid** a **Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** y Senedd wedi craffu ar y Bil hefyd.

7. Roedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o blaid egwyddorion cyffredinol y Bil, gan obeithio y byddai'n "dod â mwy o gydlyniant a gweledigaeth strategol gliriach i'r sector". Fe wnaeth y Pwyllgor 37 o argymhellion, gan gynnwys newidiadau i:

   - Sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Comisiwn yn "adlewyrchu ehangder y ddarpariaeth addysg ac ymchwil, ac amrywiaeth Cymru" - er enghraifft, drwy gynyddu cynrychiolaeth gweithwyr a dysgwyr ar y Comisiwn;
   - Cryfhau dyletswydd y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol ac ymchwil cyfrwng Cymraeg ac "adlewyrchu uchelgais Cymraeg 2050";
   - Diffinio'r hyn mae'r Bil yn ei olygu wrth "barch cydradd", gydag argymhellion penodol i'r Bil gynnwys dyletswydd i fod yn gytbwys yn y cyllid mae'n ei ddosbarthu i sicrhau nad yw rhannau penodol o'r sector ôl-16 yn cael eu "colli";
   - Diogelu lles dysgwyr a myfyrwyr, gan roi llais dysgwyr a myfyrwyr wrth galon penderfyniadau'r Comisiwn;
   - Cynnwys dyletswydd strategol i hyrwyddo cydweithio a chystadleurwydd mewn ymchwil ac arloesi;
   - Diogelu annibyniaeth y Comisiwn oddi ar Lywodraeth Cymru, drwy welliannau i sicrhau na all y Gweinidog newid cynllun strategol y Comisiwn heb ei gytundeb.

8. Nododd aelodau'r Pwyllgor hefyd bryderon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch gweithredu'r Bil, gan alw am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog am y rheoliadau a fydd yn cynnwys llawer o fanylion gweithredu'r Bil cyn trafodion Cyfnod 2.

9. Gellir gweld ymatebion Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r tri Phwyllgor ar **dudalen y Bil ar wefan y Senedd**.

10. Cytunodd y Senedd ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn ystod **y ddadl Cyfnod 1 ar 15 Mawrth 2022**.

# 3. Gwelliannau Cyfnod 2

## Cyfarfu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 12 Mai 2022 i drafod a phenderfynu ar welliannau Cyfnod 2 i'r Bil.

11. Dechreuodd Cyfnod 2 ar 16 Mawrth 2022, a daeth i ben ar 12 Mai 2022, pan gyfarfu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i benderfynu ar welliannau Cyfnod 2. Cyflwynwyd cyfanswm o 200 o welliannau yng Nghyfnod 2. Cyflwynodd y Gweinidog, Jeremy Miles AS, 50 o welliannau a chyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor y 150 o welliannau a oedd yn weddill (cyflwynodd Laura Anne Jones AS 148, a Sioned Williams AS a gyflwynodd 2).

12. Cytunwyd ar bob un o'r 50 o welliannau a gyflwynwyd gan y Gweinidog. O blith y 150 o welliannau eraill:
    - Gwrthodwyd 146 ohonynt
    - Tynnwyd 4 yn ôl/ni chawsant eu cynnig

13. Mae **cofnodion** a **thrawsgrifiad** cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 12 Mai yn nodi'r trafodion yn fanwl.

14. Roedd gwelliannau sylweddol y cytunwyd arnynt yn cynnwys y rhai a oedd yn ymwneud ag:
    - Ymchwil ac arloesi: ychwanegodd gwelliannau ddyletswydd strategol ar y Comisiwn i hyrwyddo ymchwil ac arloesi yng Nghymru, ac i hyrwyddo ymchwil ac arloesi cyfrwng Cymraeg;
    - Ymgysylltu â dysgwyr: roedd gwelliannau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried pwysigrwydd barn dysgwyr am ansawdd yr addysg drydyddol a gânt;
    - Addysg cyfrwng Cymraeg: roedd gwelliannau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn annog y galw am, a chyfranogiad mewn, addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg;
    - Cydweithio: ychwanegodd gwelliannau ddyletswydd strategol ar y Comisiwn i hyrwyddo cydweithredu rhwng darparwyr ac undebau llafur;

- Cydberthynas â Llywodraeth Cymru: fe wnaeth gwelliannau newid pŵer Gweinidogion Cymru i newid cynllun strategol y Comisiwn yn unochrog, fel bod yn rhaid i Weinidogion geisio cytundeb y Comisiwn ar bob addasiad maent yn ei gynnig;
- Corfforaethau Addysg Uwch: newidiodd gwelliannau bwerau Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru. Ni chaiff Gweinidogion ddiddymu corfforaeth addysg uwch oni bai bod y gorfforaeth naill ai'n cydsynio i orchymyn o'r fath, neu'n gwneud cais am hynny (er y caiff Gweinidogion wneud gorchymyn os ydynt yn teimlo bod cydsyniad wedi ei atal neu ei ohirio'n afresymol).

15. Fe wnaeth y Gweinidog ymrwymiadau yn ystod gweithdrefn Cyfnod 2, gan ddweud ei fod yn:

- Cefnogi'r bwriad y tu ôl i welliannau Aelodau a fyddai wedi ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr a gyllidir gan y Comisiwn (ond nad ydynt wedi eu cofrestru eu hunain) gyflawni canlyniadau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal. Nid oedd yn cefnogi'r gwelliannau, ond roedd yn archwilio dewisiadau ar gyfer gwelliannau yng Nghyfnod 3;
- Cynnig gweithio gyda'r Pwyllgor ar welliant/welliannau yng Nghyfnod 3 i adlewyrchu pwysigrwydd llesiant dysgwyr yn y Bil;
- Cydnabod bod darpariaethau'r Bil ar gyfer rheolaethau ar gyllid sy'n cael ei drosglwyddo o ddarparwyr a gyllidir yn uniongyrchol i gyrff eraill yn fwy biwrocrataidd nag y bwriadwyd. Nid oedd yn cefnogi gwelliant i ddileu'r darpariaethau, ond eglurodd ei fod yn gweithio ar welliant yng Nghyfnod 3 i fynd i'r afael â phryderon gan randdeiliaid;
- Cytuno â'r syniad y tu ôl i welliant ar dryloywder cyllido, a dywedodd y byddai'n croesawu barn y Pwyllgor ar ddatblygu gwelliant/gwelliannau ar gyfer Cyfnod 3;
- Bwriadu adolygu a diwygio'r cod trefniadaeth ysgolion yng ngoleuni gwelliannau sy'n gwneud newidiadau i *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*. Ychwanegodd y byddai'r adolygiad o'r cod yn sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu amddiffyniadau a mesurau diogelu angenrheidiol o ran chweched dosbarth ysgolion, darpariaeth Gymraeg a darpariaeth mewn ysgolion o natur grefyddol.

16. Cafodd y gwelliannau eu grwpio gyda'i gilydd er mwyn hwyluso'r ddadl.

## Grŵp 1: Perthynas y Comisiwn â Llywodraeth Cymru

17. Gwrthodwyd gwelliannau a fyddai wedi ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ysgrifennu llythyr cylch gwaith blynyddol at y Comisiwn a dileu adran yn y Bil sy'n darparu bod Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddiadau cyffredinol i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â chyrsiau neu feysydd penodol. o ymchwil. Dywedodd Laura Anne Jones AS, a gyflwynodd y gwelliannau, eu bod yn mynd i'r afael â phryderon Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch rôl hyd braich y Comisiwn fel arweinydd strategol.
18. Ni chefnogodd y Gweinidog y gwelliannau hyn, gan ddweud y byddai'r awgrym o lythyr cylch gwaith blynyddol yn fiwrocrataidd, a bod pwerau i roi cyfarwyddiadau cyffredinol yn ddewis wrth gefn ac yn angenrheidiol rhag ofn bod Gweinidogion angen i'r Comisiwn gymryd camau amserol a phenodol.
19. Cytunwyd ar welliannau'r Gweinidog a oedd yn mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei adroddiad Cyfnod 1. Mae gwelliannau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn addasu ei gynllun strategol, neu roi rheswm os ydynt yn addasu'r cynllun ac nad yw'n bosibl cael cytundeb y Comisiwn. Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog.

## Grŵp 2: Sefydlu'r Comisiwn, penodiadau a thelerau ei aelodau

20. Roedd gwelliannau'r meinciau cefn yn ceisio gwneud penodi aelodau'r Comisiwn, ac aelodau'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi, yn amodol ar broses benodi gan y Senedd. Dywedodd Laura Anne Jones AS, a gyflwynodd y gwelliannau hyn, y gellid dadlau y dylai aelodau'r Comisiwn gael eu holi a'u gwerthuso gan Bwyllgor fel y Pwyllgor hwn. Cyflwynodd Laura Anne Jones AS welliant hefyd i ohirio dyddiad cychwyn y Bil tan 1 Ionawr 2024. Cyflwynodd Sioned Williams AS ddau welliant, yn ceisio darparu ar gyfer hawliau pleidleisio i aelodau cyswllt y Comisiwn, ac i greu proses i'w dilyn pe bai gwrthdaro rhwng buddiannau yn codi mewn mater y gallai aelod cyswllt bleidleisio arno.
21. Dywedodd y Gweinidog fod gwelliannau i newid y broses benodi ar gyfer aelodau'r Comisiwn i bob pwrpas yn 'tanseilio'r arfer hirsefydlog' o benodiadau gweinidogol i gyrff cyhoeddus. Dadleuodd hefyd na fyddai'n briodol i aelodau cyswllt o'r Comisiwn gael hawliau pleidleisio, oherwydd y posibilrwydd o wrthdaro rhwng buddiannau, a dywedodd nad oedd gwelliannau'r meinciau cefn yn delio â mater sylfaenol gwrthdaro posibl rhwng buddiannau.
22. Roedd gwelliant y Gweinidog yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i ddymunoldeb yr egwyddor bod gan aelodau'r Comisiwn brofiad o

addysg neu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. Derbyniwyd gwelliant y Gweinidog, a gwrthodwyd pob gwelliant gan Aelodau.

## Grŵp 3: Undebau Llafur

23. Derbyniwyd pob gwelliant yn y grŵp hwn, a chyflwynwyd pob un ohonynt gan y Gweinidog. Cyflwynodd gwelliannau ddyletswydd strategol newydd i'r Comisiwn hyrwyddo cydweithredu rhwng darparwyr addysg drydyddol ac undebau llafur, a newid y diffiniad o undeb llafur a roddir yn y Bil.

## Grŵp 4: Ymchwil ac Arloesi

24. Derbyniwyd holl welliannau'r Gweinidog yn y grŵp hwn. Cyflwynodd y gwelliannau un ddyletswydd strategol gydlynol i'r Comisiwn hyrwyddo ymchwil ac arloesi, a gosododd ddyletswydd ar y Comisiwn i roi sylw i ddymunoldeb yr egwyddor o gynnal nodweddion unigryw darparwr wrth ddarparu cyllid ymchwil ac arloesi.

25. Cyflwynwyd gwelliannau meinciau cefn yn y grŵp hwn gan Laura Anne Jones AS, a cheisiwyd dileu gofyniad ei bod yn well gwneud penderfyniadau'r Comisiwn ar gynigion ymchwil ac arloesi yn dilyn gwerthusiad o ansawdd ac effaith debygol y cynigion. Dywedodd yr Aelod fod y gwelliant yn adlewyrchu pryderon Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru bod y Bil yn cynrychioli lefel o fanylion gweithredol a oedd yn mynd yn rhy bell mewn deddfwriaeth. Anghytunodd y Gweinidog fod y gofyniad yn y Bil yn rhy fanwl, a gwrthodwyd y gwelliant.

## Grŵp 5: Cyfle cyfartal

26. Newidiodd gwelliannau'r Gweinidog ddyletswyddau strategol y Comisiwn i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn annog mwy o gyfranogiad mewn ymchwil ac arloesi yng Nghymru gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog.

27. Cyflwynwyd gwelliannau a gyflwynwyd gan Aelodau heblaw'r Gweinidog yn y grŵp hwn gan Laura Anne Jones AS. Roedd y rhain yn cynnwys gwelliannau i gyflwyno gofyniad i delerau ac amodau cyllid gan y Comisiwn gynnwys cyflawni canlyniadau i ehangu mynediad a chyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru. Roedd y Gweinidog yn cefnogi'r bwriad y tu ôl i'r gwelliannau hyn, ond nid oedd yn eu cefnogi yn eu ffurf bresennol. Er i welliannau Aelodau gael eu gwrthod, ymrwymodd y Gweinidog i archwilio dewisiadau ar gyfer Cyfnod 3 er mwyn bodloni'r bwriad y tu ôl iddynt.

## Grŵp 6: Anghenion Dysgu Ychwanegol

28. Cyflwynodd Laura Anne Jones AS yr unig welliant yn y grŵp hwn, a oedd yn ceisio cyflwyno dyletswydd strategol ar y Comisiwn i annog mwy o gyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru gan bobl ag anghenion dysgu ychwanegol.

29. Tynnwyd y gwelliant yn ôl yn dilyn dadl yn y Pwyllgor. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn deall y bwriad, a'r angen i sicrhau'n hollol glir beth yw rôl y comisiwn o ran annog mwy o gyfranogiad gan bob dysgwr mewn addysg drydyddol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Dywedodd y byddai'n archwilio dewisiadau ar gyfer cynnwys yr agwedd hon ar y gwelliant o fewn y dyletswyddau strategol. Fodd bynnag, dywedodd fod y Bil yn ymdrin â phennu cyfleusterau ar lefel poblogaeth, yn hytrach nag ar lefel unigol, a bod y Bil eisoes yn cyfeirio at *Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018*.

## Grŵp 7: Llais y dysgwr, llesiant ac amddiffyniad

30. Roedd gwelliannau'r Gweinidog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i bwysigrwydd barn dysgwyr am ansawdd yr addysg a gânt. Nododd y Gweinidog fod y gwelliant hwn yn ymateb i adroddiad y Pwyllgor yng Nghyfnod 1, a chytunwyd ar ei welliannau.

31. Cyflwynodd Laura Anne Jones AS welliannau i ychwanegu dyletswydd drosfwaol i'r Comisiwn gefnogi iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr; ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau amddiffyn dysgwyr ystyried lles dysgwyr; a sicrhau bod myfyrwyr yn gallu parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd gwelliannau hefyd yn ceisio dileu gallu'r Comisiwn i wneud newidiadau unochrog i gynlluniau amddiffyn dysgwyr y darparwyr. Ni chefnogodd y Gweinidog y gwelliannau, ond cynigiodd weithio gyda'r Pwyllgor ar welliant yng nghyfnod 3 i adlewyrchu pwysigrwydd llesiant dysgwyr yn y Bil.

32. Cafodd gwelliant meinciau cefn yn ymwneud â dyletswydd newydd i gefnogi iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr ei dynnu'n ôl gan fod yr Aelod a'i cyflwynodd yn hapus ag ymateb y Gweinidog yn y ddadl. Gwrthodwyd gwelliannau eraill o'r meinciau cefn.

## Grŵp 8: Prentisiaethau, addysg alwedigaethol a dysgu oedolion yn y gymuned

33. Cyflwynwyd yr holl welliannau yn y grŵp hwn gan Laura Anne Jones AS. Roedd y gwelliannau yn ceisio:

- Ehangu dyletswydd y Comisiwn i gyfrannu at yr economi drwy gyfeirio at brentisiaethau, hyfforddeiaethau a rhaglenni cyflogadwyedd;
- Caniatáu i Weinidogion roi manylion penodol am gynnwys fframweithiau prentisiaeth;
- Gosod targedau ar gyfer ehangu cyfranogiad mewn prentisiaethau.

34. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn teimlo bod y Bil eisoes yn cwmpasu cynnwys prentisiaethau o fewn y diffiniad o addysg drydyddol. Gwrthodwyd y gwelliannau yn y grŵp hwn.

## Grŵp 9: Addysg cyfrwng Cymraeg

35. Roedd gwelliannau'r Gweinidog yn mynd i'r afael ag argymhellion y Pwyllgor yng Nghyfnod 1. Ehangodd gwelliannau ddyletswydd strategol ar y Comisiwn i annog galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cyflwynodd y Gweinidog welliant hefyd i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddynodi endid i roi cyngor i'r Comisiwn ar ei ddyletswyddau o ran addysg cyfrwng Cymraeg, gan egluro ei fod o'r farn y byddai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn bodloni gofynion endid o'r fath. Derbyniwyd gwelliannau gan y Gweinidog.

36. Cyflwynodd Laura Anne Jones AS welliant yn y grŵp hwn i ychwanegu gofyniad i'r Comisiwn ddarparu adnoddau i gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Dywedodd y Gweinidog fod y materion roedd y gwelliant yn mynd i'r afael â nhw wedi eu cwmpasu gan ei welliannau ei hun. Tynnwyd gwelliant yr Aelod yn ôl yn dilyn y ddadl.

## Grŵp 10: Gwelliannau drafftio, technegol a dehongli cyffredinol

37. Cyflwynodd y Gweinidog welliannau 'mân a thechnegol' yn y grŵp hwn i sicrhau cysondeb wrth ddrafftio'r Bil ac ymateb i argymhellion o adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yng Nghyfnod 1. Ychwanegodd gwelliannau yn yr adran hon eglurder o ran y geiriad, a gwnaed gwelliannau canlyniadol i *Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983* a *Deddf Addysg 1997*.

38. Ceisiodd gwelliannau meinciau cefn fewnosod dysgu oedolion yn y gymuned ar wyneb y Bil. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn cefnogi'r gwelliant gan fod dysgu oedolion yn y gymuned eisoes wedi ei gynnwys yn y diffiniadau presennol. Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog, a gwrthodwyd gwelliant yr Aelod.

## Grŵp 11: Ymreolaeth sefydliadol, rhyddid academaidd a rhyddid i lefaru

39. Cyflwynodd y Gweinidog welliannau a oedd yn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Roedd gwelliannau'n cadarnhau ac yn sicrhau bod y Bil yn darparu amddiffyniadau priodol mewn perthynas â rhyddid academaidd darparwyr addysg uwch a'u staff, ynghyd ag ymreolaeth sefydliadol darparwyr addysg drydyddol. Roedd gwelliannau hefyd yn cyflwyno dyletswydd ar y Comisiwn a Gweinidogion Cymru i roi sylw i ymreolaeth sefydliadol darparwyr addysg drydyddol. Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog.

40. Ni chefnogodd y Gweinidog welliannau meinciau cefn yn y grŵp hwn, a oedd yn ceisio cyflwyno dyletswydd benodol ar ddarparwyr addysg uwch i gymryd camau i sicrhau rhyddid i lefaru a chyflwyno cod ymarfer yn ymwneud â rhyddid i lefaru. Dywedodd y Gweinidog fod dyletswydd gyfreithiol eisoes ar sefydliadau addysg i amddiffyn rhyddid i lefaru, a bod perygl i welliannau'r Aelod fygu rhyddid i lefaru o dan ofn ymgyfreitha a biwrocratiaeth. Gwrthodwyd y gwelliannau eraill yn y grŵp hwn.

## Grŵp 12: Diogelu elusennau

41. Cyflwynwyd yr holl welliannau yn y grŵp hwn gan y Gweinidog. Roedd y gwelliannau hyn yn mireinio'r ddyletswydd amddiffyn gyffredinol o ran cydnawsedd â chyfraith elusennau a dogfennau llywodraethu darparwyr addysg drydyddol, ac yn ehangu'r ddyletswydd fel ei bod yn gymwys i swyddogaethau'r Gweinidog yn ogystal â swyddogaethau'r Comisiwn. Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog.

## Grŵp 13: Gweithdrefn a phroses y Senedd ar gyfer gwneud rheoliadau

42. Roedd gwelliannau'r meinciau cefn yn ceisio ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau i roi cyfarwyddiadau cyffredinol drwy offeryn statudol, ac na chaniateir gwneud offeryn statudol heb ymgynghori â Phwyllgor perthnasol y Senedd. Newidiodd y gwelliannau rai pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan y Bil, gan gyflwyno gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau drafft o leiaf bedair wythnos cyn i'r rheoliadau gael eu gosod gerbron y Senedd, ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol, a chyhoeddi adroddiad gyda manylion yr ymarfer ymgynghori. Mynegodd Laura Anne Jones AS, a gyflwynodd y gwelliannau, bryder ynghylch y diffyg goruchwyliaeth sydd yn y Bil, a dywedodd fod gan y Senedd gyfrifoldeb i

oruchwylio'r "pwerau sylweddol" sydd gan Lywodraeth Cymru.

43. Newidiodd gwelliannau'r Gweinidog yn y grŵp hwn y weithdrefn y byddai Gweinidogion Cymru yn gallu arfer eu pwerau drwyddi o dan adrannau penodol o'r Bil. Ni chefnogodd y Gweinidog welliannau'r meinciau cefn, gan ddweud ei fod o'r farn bod yr holl bwerau dirprwyedig yn y Bil wedi eu hystyried yn ofalus, a bod gweithdrefn briodol y Senedd wedi ei chymhwyso.

44. Tynnwyd un o welliannau'r meinciau cefn yn ôl, a gwrthodwyd y lleill. Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog.

## Grŵp 14: Cofrestru

45. Roedd gwelliannau'r Gweinidog yn ymwneud â sicrhau cysondeb yn y gofynion ymgynghori ar gyfer amodau cofrestru cychwynnol a chyffredinol. Roeddent yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn (lle bo'n briodol) ymgynghori cyn cyhoeddi dogfen gyda'i ofynion amodau cofrestru cychwynnol. Roedd y diwygiadau hefyd yn darparu dull mwy cyson o ymdrin â dyletswyddau cyfle cyfartal ac ehangu mynediad y Comisiwn. Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog.

46. Ceisiodd diwygiadau meinciau cefn gyfyngu ar allu'r Comisiwn i amrywio amodau cofrestru ar ôl i'r cofrestriad gael ei gadarnhau. Ni chefnogodd y Gweinidog y gwelliannau hyn, gan ddweud y byddent yn cyfyngu ar allu'r Comisiwn i gymhwyso amodau cofrestru parhaus penodol. Gwrthodwyd gwelliannau Aelodau.

## Grŵp 15: Sicrhau ansawdd

47. Ychwanegodd gwelliannau a gyflwynwyd gan y Gweinidog yn y grŵp hwn ystyriaeth o farn dysgwyr am ansawdd yr addysg drydyddol a gânt at y rhestr o faterion i'w cynnwys mewn fframweithiau sicrhau ansawdd. Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog.

48. Roedd gwelliannau a gyflwynwyd gan Laura Anne Jones AS yn ceisio cyflwyno corff cyfrifol a gweithdrefn ar gyfer arolygu prentisiaethau gradd yng Nghymru. Disgrifiodd Laura Anne Jones AS y rhain fel gwelliannau treiddgar, a dywedodd ei bod yn ceisio eglurder ynghylch prentisiaethau gradd. Ni chefnogodd y Gweinidog y gwelliannau, a dywedodd fod y Bil yn glir ynghylch y trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd addysg bellach ac addysg uwch, gyda chyfrifoldeb am y ddau ym meddiant y comisiwn, a bod prentisiaethau gradd yn dod o dan addysg uwch ar gyfer y dibenion hyn. Dywedodd y byddai ehangu prentisiaethau gradd yn fater i'r Comisiwn ar ôl ei sefydlu. Gwrthodwyd gwelliannau Aelodau.

## Grŵp 16: Pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru, adroddiadau ar gynaliadwyedd ariannol, cyfarwyddiadau cymorth ariannol

49. Roedd gwelliannau a gyflwynwyd gan Laura Anne Jones AS yn y grŵp hwn yn ceisio dileu adrannau o'r Bil yn ymwneud â'r canlynol:

- Y seiliau dros ymyrryd ar sail ymddygiad darparwr addysg drydyddol;
- Pwerau i ymyrryd;
- Y gofyniad i roi gwybod am seiliau ymyrryd;
- Datganiad Gweinidogion Cymru ar bwerau ymyrryd.

50. Byddai gwelliant 87 wedi dileu'r gofynion i'r Comisiwn anfon adroddiad ar wahân, ochr yn ochr â'i adroddiad blynyddol, yn crynhoi'r rhagolygon ariannol ar gyfer y rhai mae'r Comisiwn yn gyfrifol am eu monitro.

51. Ni chefnogodd y Gweinidog y gwelliannau hyn, ac fe'u gwrthodwyd. Dywedodd y Gweinidog nad yw'r pwerau ymyrryd y byddai'r gwelliannau wedi eu dileu yn rhai newydd; maent yn barhad o'r trefniadau presennol o dan adran 57 o *Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992*, ac y byddant yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu a sicrhau darpariaeth addysg bellach yng Nghymru a sicrhau bod y comisiwn yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau o ran addysg bellach a hyfforddiant.

52. Cyflwynodd y Gweinidog un gwelliant, i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi sut maent yn bwriadu arfer eu pwerau ymyrryd o dan adran 68 o'r Bil. Gosododd ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod copi o'r datganiad ymyrryd gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl ar ôl ei gyhoeddi. Derbyniwyd gwelliant y Gweinidog.

## Grŵp 17: Cytundebau canlyniadau, rheolaethau cyllido a thryloywder

53. Cyflwynwyd gwelliannau yn y grŵp hwn gan Laura Anne Jones AS. Roedd gwelliannau'n ceisio dileu pŵer Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ymrwymo i gytundeb canlyniadau pan fo'r Comisiwn yn bwriadu darparu adnoddau ariannol i unigolyn, ac adran 105 o'r Bil a oedd yn ymwneud â chydsyniad ar gyfer taliadau i gyrff sy'n cydweithio.

54. Nododd yr Aelod fod tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn codi pryderon am effaith cytundebau canlyniadau, yn enwedig ar ddarparwyr sy'n cael cyllid ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol.

Cyflwynodd yr Aelod welliant hefyd i gyflwyno gofyniad newydd ynghylch tryloywder cyllid.

55. Dywedodd y Gweinidog fod cytundebau canlyniadau yn gydran graidd o'r system gyllido strategol y bydd y comisiwn yn ei gweithredu, a'u bod yn sefydlu llinell weledig glir a chyhoeddus rhwng blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a sut mae'r Comisiwn yn rhagweld y bydd darparwyr yn cyfrannu tuag atynt. Ni chefnogodd y Gweinidog welliant i gyflwyno gofyniad newydd ynghylch tryloywder cyllid, ond ymrwymodd i ddatblygu gwelliant yng nghyfnod 3 i nodi'r egwyddorion y byddai'n ofynnol i'r comisiwn weithredu yn unol â nhw wrth arfer ei bwerau cyllido.

56. Gwrthodwyd yr holl welliannau yn y grŵp hwn.

## Grŵp 18: Pwerau cyllido Gweinidogion Cymru

57. Cyflwynwyd gwelliannau yn y grŵp hwn gan Laura Anne Jones AS. Eglurodd yr Aelod fod gwelliannau'n mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyllido cyrsiau addysg uwch penodol. Y pryder oedd y byddai hyn yn tanseilio'r cysyniad o un sector addysg drydyddol. Roedd gwelliannau'n ceisio dileu pwerau a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyllido addysg bellach a hyfforddiant yn yr un modd â'r Comisiwn.

58. Galwodd y Gweinidog ar yr Aelodau i wrthod pob gwelliant yn y grŵp hwn. Dywedodd fod darpariaethau'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyllido amrywiaeth gyfyngedig iawn yn unig o gyrsiau addysg uwch, yn unol â'u pwerau presennol. Gwrthodwyd y gwelliannau eraill yn y grŵp hwn.

## Grŵp 19: Gwybodaeth

59. Cyflwynwyd gwelliannau'r meinciau cefn yn y grŵp hwn gan Laura Anne Jones AS. Roedd y rhain yn ceisio dileu gofyniad i'r Comisiwn ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru, a'r pŵer i Weinidogion Cymru fynnu bod gwybodaeth o'r cais i'r derbyn yn ofynnol (gwybodaeth yn ymwneud â cheisiadau i addysg uwch, ac unrhyw gynnig neu wrthodiad a roddwyd mewn ymateb gan ddarparwyr). Ni chefnogodd y Gweinidog y gwelliannau, a gwrthodwyd pob un ohonynt.

60. Disgrifiodd y Gweinidog ei welliant yn y grŵp hwn fel un technegol, gan ddweud ei fod yn ychwanegu croesgyfeiriad a oedd ar goll yn flaenorol o'r Bil. Derbyniwyd y gwelliant.

## Grŵp 20: Diddymu corfforaethau addysg uwch

61. Ceisiodd gwelliannau meinciau cefn ddileu gallu Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch. Dywedodd Laura Anne Jones AS, a gyflwynodd y gwelliannau, fod y pŵer yn bygwth annibyniaeth corfforaethau addysg uwch heb siarter frenhinol, a fyddai'n cael effaith neilltuol o negyddol yng Nghymru gan fod hynny'n cwmpasu hanner ein prifysgolion. Ychwanegodd y byddai'r pwerau yn rhoi prifysgolion Cymru yn y sefyllfa wannaf ar draws y Deyrnas Unedig gyfan.

62. Ni chefnogodd y Gweinidog welliannau'r Aelod, gan ddweud bod angen i Weinidogion Cymru gadw'r pŵer i ddiddymu corfforaeth addysg uwch er mwyn sicrhau, o dan amgylchiadau eithriadol, y gall y Llywodraeth gymryd camau priodol i ddiogelu dysgwyr ac arian cyhoeddus. Cafodd gwelliannau'r Aelod eu gwrthod.

63. Roedd gwelliannau a gyflwynwyd gan y Gweinidog yn diwygio pŵer Gweinidogion Cymru i ddiddymu corfforaeth addysg uwch, fel y byddai angen arnynt yn y lle cyntaf i gorfforaeth addysg uwch ofyn, neu gydsynio, i wneud gorchymyn o'r fath. Os na cheir cais neu gydsyniad o'r fath, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad yn egluro o dan ba amgylchiadau yr oeddent yn arfer eu swyddogaeth i ddiddymu corfforaeth addysg uwch (os yw Gweinidogion o'r farn bod cydsyniad wedi ei atal neu ei ohirio'n afresymol). Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog.

## Grŵp 21: Y Chweched Dosbarth

64. Roedd gwelliannau meinciau cefn yn y grŵp hwn yn ceisio dileu adran o'r Bil yn ymwneud â rhesymoli darpariaeth chweched dosbarth. Dywedodd Laura Anne Jones AS, a gyflwynodd y gwelliannau, fod y chweched dosbarth yn aml wrth wraidd eu cymunedau lleol ac yn cynnig cyswllt cryf rhwng addysg 11 i 16 oed a byd oedolion. Ychwanegodd fod rhanddeiliaid wedi mynegi pryderon am y pwerau arfaethedig i ad-drefnu'r chweched dosbarth. Cafodd gwelliannau'r Aelod eu gwrthod.

65. Roedd gwelliannau a gyflwynwyd gan y Gweinidog yn aralleirio iaith yn y Bil ynghylch chweched dosbarth, gan ddisodli 'rhesymoli' ag 'ailstrwythuro', ac yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymeradwyo cynigion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth pan fo gwrthwynebiad ysgrifenedig wedi ei nodi. Derbyniwyd gwelliannau'r Gweinidog.

# 4. Y camau nesaf: Cyfnod 3 a thu hwnt

Dechreuodd y Bil Gyfnod 3 y broses ddeddfwriaethol ar 13 Mai 2022. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Aelodau o'r Senedd (gan gynnwys y Gweinidog) yn cael cyfle i gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2. Gellir gweld y gwelliannau a gyflwynwyd ar **dudalen y Bil**.

66. Bydd y Senedd yn penderfynu ar y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 21 Mehefin 2022. Yna, gofynnir i'r Senedd bleidleisio a ddylid pasio'r Bil yng Nghyfnod 4 ai peidio, sydd wedi ei drefnu ar gyfer 28 Mehefin 2022. Mae **Rheolau Sefydlog** y Senedd yn gwneud darpariaeth i'r Gweinidog baratoi memorandwm esboniadol diwygiedig sy'n ystyried y gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2. Rhaid i'r memorandwm diwygiedig gael ei osod o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn trafodion Cyfnod 3.

67. Os caiff Bil ei basio gan y Senedd yng Nghyfnod 4, rhaid iddo gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines cyn dod yn gyfraith.

68. Cyn trafodion Cyfnod 2, **ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gyda gwybodaeth ychwanegol am y gwelliannau a gyflwynwyd ganddo**. Yn y llythyr, eglurodd ei fod yn bwriadu cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3, mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor yng Nghyfnod 1. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i:

- Ddarparu dull mwy cyson ac eang o ymdrin â'r dyletswyddau cyfle cyfartal ac ehangu mynediad ar gyfer pob rhan o'r sector ôl-16, ac nid dim ond y darparwyr hynny sy'n gorfod cofrestru.
- Gosod dyletswyddau ar y Comisiwn i gyhoeddi manylion, fan leiaf, ei ddyraniadau cyllid; ei fethodolegau cyllido; ei fformiwlâu ariannu; a'i alldro cyllidol, yn ogystal â gosod dyletswydd i fod yn dryloyw yn ei benderfyniadau cyllido.
- Dileu adran 105, a nodi dull gwahanol o reoli diwydrwydd dyladwy pan fydd cyllid yn cael ei drosglwyddo i drydydd partïon.

69. Yn ôl **Memorandwm Esboniadol** gwreiddiol y Bil, disgwylir i'r Comisiwn newydd fod "yn gwbl weithredol erbyn 2023-24", gyda Phrif Swyddog Gweithredol "yn ei swydd o 1 Ionawr 2023". Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis **Chwefror 2022**, esboniodd y Gweinidog y bydd "dull graddol

o weithredu'r swyddogaethau y darperir ar eu cyfer yn y Bil, ar ôl ei sefydlu yn 2023 ac yn 2024 a 2025". Nododd hefyd y bydd y broses recriwtio ar gyfer Prif Weithredwr y Comisiwn yn dechrau yn ystod "camau olaf y gwaith craffu".